

Rheolaeth Gynaliadwy ar Barasitiaid mewn Defaid



Ydych CHI'N Drensiio'n Gywir



1

*Rhowch ddôs y
trymaf i holl
ddefaid y grwp*

2

*Calibradwch y
dryll a'i gadw
mewn cyflwr da*

3

*Rhowch drwyn y
dryll dros gefn y
tafod*

**Cadwch at y tair rheol dros y dudalen a dren-
sio'n gywir BOB TRO!**

1. PWYSWCH – PEIDIWCH DYFALU

Trwy ddyfalu pwysau dafad, mae perygl ichi roi dôs rhy fach iddi. Dewiswch a phwyswch ddafad fwyaf y grwp i fesur y dôs cywir. Os oes gwahaniaeth mawr ym mhwsau'ch defaid, rhannwch y grwp, ac yna pwysu'r drymaf ym mhob is-grwp. Peidiwch ag anghofio gofalu bod y craets pwysu'n gweithio'n gywir cyn dechrau!

2. CALIBRADU'R DRYLL A'I GADW MEWN CYFLWR DA

Gofalwch fod y dryll yn rhoi'r swm cywir o foddion cyn dechrau drensio. Cymerwch chwistrell 10ml, tynnwch y plwnjwr, rhwch eich bawd ar ei waelod a saethwch y dôs o'r dryll i'r chwistrell, gan ofalu'ch bod wedi cael gwared ar unrhyw swigod yn gyntaf. Chwaraewch â mesurydd y dryll nes ei fod yn saethu'r dôs cywir. Mae'n bwysig hefyd eich bod yn cadw'ch dryll drensio mewn cyflwr da a chael un newydd yn ei le'n rheolaidd. Golchwch y dryll â dwr cynnes a sebon ar ôl ei ddefnyddio gan gadw golwg ar y sbrings a'r tiwbiau i wneud yn siwr nad oes cnwc lle gall swigod grynhoi.

3. DRENSIO'N GYWIR

Er mwyn cael y gorau o'r moddion, mae'n bwysig drensio'n gywir. Gofalwch fod y ddafad yn sownd ac yn methu neidio o gwmpas pan fyddwch yn ei drensio, fel ei bod yn llyncu'r moddion i gyd. O beidio â'i chadw'n sownd, fe allech drywanu cefn ei cheg, a'i hanafu a hyd yn oed ei lladd. Rhwch eich llaw o dan ei phen a'i droi ychydig i un ochr. Rhwch drwyn y dryll yn y bwlch rhwng y cilddannedd (molars) a'r blaendannedd ac yna dros gefn y tafod. Mae'n bwysig gwneud hyn a chael y moddion lladd llyngyr i gefn y geg. Fel arall, gallai lifo i lawr rhigol yr osoffagws a pheidio â mynd i'r rwmen o gwbl. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer drens gwyn (BZ).

Peidiwch â'u bwydo

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod drens gwyn (BZ) a drens clir (AV) yn gweithio'n well os nad yw'r defaid yn cael bwydo am 12-24 awr cyn eu drensio. Mae'n well felly defnyddio drens melyn (LM) i drin mamogiaid sy'n drwm ag wryn.

Storio

Cadwch y moddion lladd llyngyr mewn lle diogel 4 - 25°C, allan o lygad yr haul. Cadwch lygad ar y dyddiad 'use by' ac ar ôl ei agor, defnyddiwch ef o fewn yr amser a ddangosir ar y pecyn. Ysgwydwch ddrens gwyn (BZ) yn dda cyn ei defnyddio.

A Chofiwch ...

Does dim ots pa mor aml rydych yn ei ddefnyddio, darllenwch y cyfarwyddiadau bob tro. Mae cynghorion ar faint y dôs a'r cyfnodau 'rhoi'r-gorau-i'w-ddefnyddio' yn newid.

Am fwy o wybodaeth:

Holwch eich Milfeddyg, eich Cynghorydd neu'r Dosbarthwr neu ewch at

www.nationalsheep.org

